# Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

**2009 mccc 4**

*Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**1 Y Comisiynydd**

(1) Bydd Comisiynydd Safonau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel "y Comisiynydd").

(2) Mae'r Comisiynydd i'w benodi gan y Cynulliad.

(3) Nid yw person yn gymwys i'w benodi'n Gomisiynydd os yw'r person hwnnw —

(a) yn Aelod Cynulliad,

(b) wedi bod yn Aelod Cynulliad ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 2 flynedd cyn y dyddiad y mae'r penodiad i ddod i rym,

(c) yn aelod o staff y Cynulliad,

(d) wedi bod yn aelod o staff y Cynulliad ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 2 flynedd cyn y dyddiad y mae'r penodiad i ddod i rym,

(e) yn aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru, neu

(f) wedi bod yn aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 2 flynedd cyn y dyddiad y mae'r penodiad i ddod i rym.

(4) Mae'r Comisiynydd i'w benodi am gyfnod o 6 blynedd.

(5) Ni chaniateir i berson sydd wedi dal swydd y Comisiynydd gael ei benodi am gyfnod arall (yn olynol neu beidio).

(6) Caniateir ar unrhyw adeg i berson sydd wedi'i benodi'n Gomisiynydd —

(a) ymddiswyddo drwy hysbysiad a roddir i'r Cynulliad, neu

(b) cael ei ddiswyddo gan y Cynulliad.

(7) Ni chaniateir i berson gael ei ddiswyddo o swydd y Comisiynydd o dan is-adran (6)(b) oni bai —

(a) bod y Cynulliad yn penderfynu felly, a

(b) bod nifer y pleidleisiau a fwrir o blaid y penderfyniad, os caiff y penderfyniad ei basio drwy bleidlais, heb fod yn llai na dau draean o gyfanswm y pleidleisiau a fwrir.

(8) Mae penodiad person yn Gomisiynydd yn dod i ben os bydd y person hwnnw —

(a) yn dod yn ymgeisydd i fod yn Aelod Cynulliad dros un o etholaethau'r Cynulliad neu dros un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad,

(b) yn cael ei benodi'n Gwnsler Cyffredinol, neu ei ddynodi i arfer swyddogaethau'r swydd honno, o dan adran 49 o'r Ddeddf, neu,

(c) yn cael ei benodi'n aelod o staff y Cynulliad neu o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## 2 Prif nod y Comisiynydd

Prif nod y Comisiynydd wrth arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn yw hybu, annog a diogelu safonau ymddygiad uchel yn swydd gyhoeddus Aelod Cynulliad.

## 3 Darpariaeth bellach ynghylch y Comisiynydd

Mae'r Atodlen yn gwneud rhagor o ddarpariaethau ynghylch y Comisiynydd.

## 4 Penodi Comisiynydd Dros Dro

(1) Pan fydd swydd y Comisiynydd yn wag neu pan fydd y Comisiynydd, am unrhyw reswm, yn methu â gweithredu, caiff y Cynulliad benodi person i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas ag unrhyw achos neu ddosbarth o achosion, a hynny hyd at unrhyw amser a bennir gan delerau ac amodau'r penodiad hwnnw; a chyfeirir at berson a benodir felly yn yr adran hon fel y "Comisiynydd dros dro".

(2) Caiff y Comisiynydd a'r Comisiynydd dros dro ill dau gyflawni swyddogaethau swydd y Comisiynydd ar yr un pryd ond mewn perthynas ag achosion gwahanol.

(3) Nid yw person nad yw'n gymwys i'w benodi'n Gomisiynydd yn gymwys i'w benodi'n Gomisiynydd dros dro.

(4) Mae person a benodir yn Gomisiynydd dros dro —

(a) yn cael ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy hysbysiad a roddir i'r Cynulliad,

(b) yn gallu cael ei ddiswyddo ar unrhyw adeg gan y Cynulliad,

(c) yn peidio â dal y swydd o dan yr amgylchiadau a bennir yn adran 1(8)(a), (b) a (c),

(d) fel arall yn dal y swydd ar unrhyw delerau ac amodau a bennir gan y Cynulliad, ac

(e) i'w drin i bob diben (ac eithrio dibenion adran 1), tra bydd yn dal y swydd honno, fel y Comisiynydd.

## 5 Annibyniaeth y Comisiynydd

Yn ddarostyngedig i adran 19, wrth iddo arfer unrhyw swyddogaethau, nid yw'r Comisiynydd i ddod o dan gyfarwyddyd neu reolaeth y Cynulliad.